PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 28 Gorffennaf 9, 2026 50c.

## Annibynwyr Môn yn ymateb i'r her



*Cynhaliwyd cwrdd chwarter Môn yng nghapel Ebeneser Llanfairpwll*

Cynhaliwyd cwrdd chwarter Cyfundeb Môn yng nghapel Ebeneser, Llanfairpwll ar 29 Ebrill, a daeth dros 20 yno i drafod amrywiol faterion oedd angen sylw. Y Parchg Ddr Geraint Tudur oedd yn cadeirio, ac wedi iddo groesawu pawb i'r cyfarfod a diolch i weinidog a swyddogion Ebeneser am gael cynnal y cyfarfod yno, daeth y Parchg Ddr Alun Moreton Thomas, gweinidog yr ofalaeth, ymlaen i arwain y defosiwn. Darllenodd o Salm 89 a gweddïo'n daer am fendith Duw ar y cyfarfod.

Yn dilyn derbyn yr ymddiheuriadau, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion hynny. Daethpwyd at faterion yr ysgrifennydd, Irfon Morris. Nododd y cadeirydd i Irfon wynebu triniaeth lawfeddygol ers y cyfarfod diwethaf ac oherwydd hynny, croesawodd ef yn ôl at ei waith.

### Materion yn codi

(1) Penderfynwyd anfon cyfraniad ariannol at waith Cynnal, a

(2) cadarnhawyd y trefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd pan gynhelir hi yma ar yr ynys ar ddiwedd mis Mai. Penderfynwyd hefyd anfon cyfraniad tuag at gostau'r babell. Diolchwyd i Menai Thomas, Porthaethwy, a'r Parchg Ddr Alun Moreton Thomas am ysgwyddo'r cyfrifoldeb o drefnu dau o ddyddiau'r wythnos, sef y dydd Mawrth a'r dydd Gwener.

(3) Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer cwrs hyfforddiant nesaf y Parchg Carwyn Siddall ac Undeb yr Annibynwyr. Bydd yn digwydd ar Zoom ac yn cychwyn ar 5 Mai. Yr hyb agosaf atom ni fydd capel Emaus, Bangor, a hynny oherwydd prinder adnoddau digidol yma ar yr ynys.

(4) Ar ddydd Sul, 3 Mai, cynhelir Sul y Cyfundeb yn Ebeneser, Rhosmeirch pryd y pregethir gan Dafydd Owen Roberts, Trefor, Caernarfon.

(5) Mewn ymateb i lythyrau gan Tom Jones, Seilo, Cefn-coch a Beryl Siddall, Saron, Bodedern, penderfynwyd trefnu cyfarfod i drafod awgrym y cyntaf y dylid adeiladu capel newydd yng ngogledd ddwyrain yr ynys, a dyfarnwyd grant i'r ail i gynnal arbrawf cenhadol dros gyfnod o dair blynedd i weld a ellir datblygu Saron i fod yn eglwys ardal neu eglwys bro yn dilyn dirwyn achosion Caergybi a'r cyffiniau i ben.

(6) Dyfarnwyd grantiau hefyd i Siloam, Talwrn, ar gyfer datrys problem pydredd sych yn yr adeilad, ac i Ebeneser, Llanfairpwll, i drwsio drws tân.

(7) Nodwyd gwerthiant capeli Caergybi, a dywedwyd bod gwerthiant Hebron, Maenaddwyn, ar fin cael ei gwblhau. Diolchwyd i Edward Morus Jones am ei gymorth gwerthfawr yn y broses o drefnu'r gwerthiannau hyn.

*parhad ar dudalen 2*



*Hebron, Maenaddwyn*

## Llongyfarchion

Yn yr oedfa o fawl a gynhaliwyd yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghapel y Nant, (25/06) fe gyflwynwyd dau fyfyriwr fu'n llwyddiannus wrth ddilyn y cwrs hyfforddiant i'r weinidogaeth am gyfnod o ddwy flynedd o dan arweiniad y Parchg Carwyn Siddall.

Llongyfarchwyd hwy yn gynnes iawn gan y Llywydd, Owain Llŷr Evans a dymunwyd pob bendith iddynt i'r dyfodol. Y mae Sian Meinir, Penarth, ac Arwyn Owen Hughes, Nefyn, nawr yn agored i alwad gan eglwysi.



# Symffoni 'Y Diwygiad' Mendelssohn: ffydd, cerddoriaeth, a myfyrdod personol



Ar ôl bod yn darllen ychydig am y Diwygiad Protestannaidd yn ddiweddar, yn enwedig y digwyddiadau o amgylch Cynulliad Worms, pum canrif a phum mlynedd yn ôl yn 1521, rwyf wedi cael fy nharo gan sut mae themâu dewrder, argyhoeddiad, a diwygio, a oedd mor amlwg y pryd hynny, yn parhau i fod yn berthnasol i ni yn 2026. Yn gyd-ddigwyddiad rhyfedd ffurfiodd yr ymdeimlad hwnnw gefndir addas i wrando ar Symffoni rhif 5 Felix Mendelssohn, 'Symffoni'r Diwygiad', a berfformiwyd fel rhan o raglen gan Gerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru yn eu soirée haf ganol mis Mehefin. Nid yw'n waith cerddorfaol a berfformir yn aml iawn nac yn un a glywir yn eang, ac roedd ei brofi'n fyw yn ddigwyddiad arbennig o drawiadol. Wrth ei glywed am y tro cyntaf, cefais hi'n gyffrous iawn mewn ffordd nad oeddwn i'n ei disgwyl. Mae rhywbeth pwerus am waith sy'n teimlo'n hanesyddol ei wreiddiau tra ar yr un pryd yn bersonol uniongyrchol.

### Emynyddiaeth

Roedd yr ymdeimlad hwnnw o'r Diwygiad yn atseinio mewn ffordd fwy lleol a chyfarwydd trwy draddodiad emynau Cymru. Mae emyn mawr Martin Luther (1483–1546) 'A Mighty Fortress is Our God' yn adnabyddus yn Saesneg, ond mae ganddo hefyd fynegiant Cymraeg yng *Nghaneuon Ffydd* (Rhif 121) 'Ein nerth a'n cadarn dwr yw Duw' (Lewis Edwards 1809–87). Mae'r emyn wedi cael ei ganu ers canrif a mwy yng nghapeli ac eglwysi Cymru, gan gario'r un argyhoeddiad diwinyddol. Mae clywed y cysylltiad hwnnw rhwng hanes y diwygiad Ewropeaidd ac emynyddiaeth fyw Cymru yn rhoi ymdeimlad ychwanegol o uniongyrchedd a gwreiddiau i themâu'r symffoni.

### Symffoni rhif 5

Cyfansoddodd Felix Mendelssohn y symffoni ym 1830 i goffáu 300 mlynedd ers Cyffes Augsburg ym 1530, moment ddiffiniol yn hanes y diwygiad Lutheraidd. Er bod Mendelssohn ei hun yn dod o deulu Iddewig a gofleidiodd Gristnogaeth yn ddiweddarach, roedd ei ymgysylltiad â cherddoriaeth gysegredig a thraddodiad eglwysig yn feddylgar ac yn ddiffuant. Mae'r cefndir hwn yn rhoi dyfnder nodedig i'r symffoni, gan gyfuno ymwybyddiaeth hanesyddol â mynegiant ysbrydol dilys.

Yr hyn a'm trawodd ar unwaith fel gwrandäwr oedd sut nad yw'r gwaith yn dechrau gyda mawredd neu ddathliad yn unig. Yn hytrach, mae'n agor mewn awyrgylch o barch tawel. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys yr hyn a elwir yn 'Amen Dresden', dilyniant o gordiau reit ddifrifol sydd wedi'u gwreiddio mewn litwrgi Lutheraidd. Yn hytrach na lansio i fuddugoliaeth, mae Mendelssohn yn tynnu'r gwrandäwr i ofod myfyriol, fel pe bai'n camu i mewn i gadeirlan wrth i'r addoliad ddechrau a'r awyrgylch setlo i dawelwch.

O'r sylfaen hon, mae'r symffoni'n datblygu fel math o daith ysbrydol. Mae'r symudiadau cynnar yn cydbwyso egni a chyfyngiad, tra bod yr adrannau canol yn fwy telynegol a myfyriol. Mae ymdeimlad o chwilio drwy gydol y gwaith – o ffydd yn cael ei harchwilio yn hytrach na'i datgan yn unig. Ar adegau, mae'n teimlo'n fewnblyg, bron yn weddigar, fel pe bai'r gerddoriaeth ei hun yn ymgodymu ag ystyr a thraddodiad.

### Symudiad olaf

Daw un o'r eiliadau mwyaf pwerus yn y symudiad olaf, lle mae Mendelssohn yn cyflwyno emyn Martin Luther 'Ein feste Burg ist unser Gott.' Un o emynau diffiniol y Diwygiad Protestannaidd, ac mae ei drawsnewidiad yn y symudiad hwn yn rhyfeddol. Mae'r hyn sy'n dechrau fel alaw syml, yn ehangu'n raddol i gyhoeddiad cerddorfaol llawn, gan dyfu o ran graddfa, lliw a hyder. Nid yn unig y mae'r effaith yn gerddorol ond mae yn symbolaidd iawn. Mae'r daith o fyfyrdod tawel i gadarnhad beiddgar yn adlewyrchu stori'r Diwygiad ei hun; ei frwydrau, ei argyhoeddiadau, a'i ddylanwad parhaol ar ffydd Gristnogol. Ac eto, mae hefyd yn atseinio'n bersonol. Fel gwrandäwr, cefais fy hun wedi fy nghyffwrdd nid yn unig gan yr arwyddocâd hanesyddol, ond gan yr ymdeimlad o ymddiriedaeth, gwydnwch a gobaith sydd wedi'i fewnosod yn y gerddoriaeth.

### Adnewyddu

I gymunedau eglwysig heddiw, mae 'Symffoni'r Diwygiad' yn cynnig mwy na theyrnged hanesyddol. Mae'n gwahodd myfyrdod ar ystyr adnewyddu, ym mywyd yr Eglwys ac yn ein teithiau ysbrydol ein hunain. Mae'n awgrymu nad yw ffydd yn statig, ond yn rhywbeth sy'n datblygu, yn cael ei brofi, ac yn y pen draw yn cael ei ailgadarnhau dros amser.

Yn y diwedd, mae symffoni Mendelssohn yn parhau i fod yn waith o bŵer tawel. Er nad yw'n cael ei glywed yn aml, mae'n haeddu gwrandawiad astud gydag eiliadau o harddwch a myfyrdod dwfn, gan ein hatgoffa y gall cerddoriaeth, heddiw fel ag erioed, ddal siarad yn ystyrlon i fywyd ffydd heddiw.

**Hefin Jones**

# Annibynwyr Môn yn ymateb i'r her – parhad

### Unrhyw fater arall

Aeth y Parchg Alun Moreton Thomas ymlaen i sôn am brosiect 'Agor y Llyfr', a daeth y Parchg J. Ron Williams ymlaen i holi a oedd unrhyw eglwysi o fewn y Cyfundeb â diddordeb mewn cael gweinidog gan fod dau yn dod i ddiwedd eu cyrsiau hyfforddiant o fewn cwta ddeufis.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd am ei waith manwl a gofalus.

Cyflwynodd y Trysorydd, Bryn Mortimer-Roberts, adroddiad blynyddol y Cyfundeb gan ddweud y byddai copïau yn cael eu hanfon at yr eglwysi gyda chofnodion y cyfarfod presennol. Os bydd cwestiynau, bydd yn fodlon ymateb iddynt yn y cyfarfod nesaf. Soniodd yntau hefyd am werthiant capeli Caergybi. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd.

Yr unig fater gan y cadeirydd oedd cyflwyno adroddiad o Gyngor Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Llanbadarn Fawr ar 6–7 Mawrth. Amlinellodd amserlen y Cyngor, gan nodi wedyn brif bwyntiau'r adrannau yr oedd ef wedi eu mynychu, sef yr Adran Tystiolaeth ac Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth. Ildiodd wedi hynny i Edward Morus Jones, a chyflwynodd yntau brif bwyntiau'r adrannau eraill, sef yr Adran Dinasyddiaeth Gristnogol ac Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang.

Cyhoeddwyd mai yn Ebeneser, Rhosmeirch y bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Medi cyn penderfynu mai i Cymorth Cristnogol y bydd casgliad Sul y Cyfundeb yn mynd. Rhannwyd copi o'r *Cofiadur* i bob eglwys gan y Cadeirydd cyn iddo gloi'r cyfarfod gyda gweddi a chyhoeddi'r fendith.

Allan o'r *Llais* Tabernacl Porthaethwy rhifyn Mehefin 2026

Yr Adran
Gydenwadol

9 Gorffennaf 2026
Rhifyn 280

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Ny Ako o Fadagascar ar daith yng Nghymru









Mae grŵp o berfformwyr o Fadagascar, Ny Ako, yn teithio ledled Cymru ar hyn o bryd, gan gyflwyno cyngherddau mewn capeli ac ysgolion sy'n dathlu diwylliant eu gwlad drwy gerddoriaeth, dawns, iaith ac offerynnau traddodiadol. Trefnwyd y daith gan Miara Rabearisoa, brodor o Fadagascar sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghymru, fel rhan o daith Ewropeaidd ehangach. Mae'r cyngherddau'n rhad ac am ddim ac eisoes wedi ymweld â sawl cymuned, gyda rhagor o berfformiadau wedi'u trefnu cyn diwedd y daith.

Gobaith Miara yw rhoi cyfle i bobl Cymru brofi diwylliant Madagascar, ond hefyd dynnu sylw at y cysylltiad hanesyddol dwfn rhwng y ddwy wlad. Yn ôl Miara, dechreuodd y cysylltiad agos gyda Chymru ym 1818 pan deithiodd dau genhadwr ifanc o Geredigion, David Jones a Tomos Bevan, i Fadagascar i ledaenu'r Efengyl yno. Cred Miara fod eu cefndir gwledig, eu hieithoedd a'u parodrwydd i ddysgu Falagasi wedi cyfrannu at eu llwyddiant ymhlith y bobl leol. Ymunodd David Griffiths o Sir Gâr â'r gwaith cenhadol ym 1821. Bu'r cenhadon yn addysgu'r teulu brenhinol a'r bobl gyffredin, yn sefydlu ysgolion ac yn datblygu'r iaith Falagasi ysgrifenedig. Fe wnaethant hefyd gyfieithu nifer o lyfrau, gan gynnwys y Beibl, a hwn oedd y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl i iaith Affricanaidd ar y pryd. Mae eu dylanwad yn parhau i'w weld heddiw, gyda thua 70% o boblogaeth Madagascar yn Gristnogion a rhai ysgolion yn dal i gario enwau'r cenhadon Cymreig.

Mae'r cysylltiad hwn wedi'i adlewyrchu yn ystod y daith, gan gynnwys perfformiad arbennig o'r emyn-dôn 'Gwahoddiad', lle canodd Côr Meibion y Drenewydd yn Gymraeg ac aelodau Ny Ako yn yr iaith Falagasi. Mae'r emyn yn adnabyddus yn y ddwy wlad ac yn symbol o'r berthynas unigryw rhyngddynt.


Dyma'r bumed daith y mae Miara wedi'i threfnu i Ny Ako yng Nghymru. Mae'r criw yn ymweld â phentrefi bach yn ogystal â dinasoedd, er mwyn sicrhau bod pobl o bob rhan o'r wlad yn cael cyfle i brofi diwylliant Madagascar. Mae'r perfformiadau'n llawn lliw, rhythm ac egni, gan adlewyrchu traddodiadau bywiog y wlad.

Mae Miara, ei wraig, Rebecca, a'u merched, Hannah a Seren, bellach yn byw yn Nhrefaldwyn.

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 30

## Ymson Tamar

Clywais bobl yn gwawdio fy enw. Rhannwyd fy stori droeon drwy lygaid dynion, ond heddiw rhannaf hi â'm llais fy hun. Felly, dewch yn nes i wrando.

Rhoddwyd fi i ddyn milain. Cyn pen dim ro'n i'n weddw. Gorfu imi briodi â'i frawd. Eto, bu farw hwnnw. Bûm wedyn yn aros am y trydydd brawd (roedd e'n rhy ifanc). Addawodd Jwda, tad y tri brawd, y byddai'r drydedd briodas yn digwydd, felly es adre am gyfnod at fy nhad.

Aeth y dyddiau yn fisoedd a'r misoedd yn flynyddoedd. Fe gymerodd amser imi sylweddoli eu bod wedi anghofio amdanaf. Gwnaethpwyd y penderfyniadau i gyd drosof, a minnau'n gorfod ymdopi. Ro'n i'n fregus, a phan ddaeth yn amlwg nad oedd Jwda am gadw at ei air, torrais fy nghalon. Doedd gen i neb yn eiriolwr, neb i ofalu amdanaf; dim etifeddiaeth, dim gobaith.

Felly, fe benderfynais bod yn rhaid imi wneud rhywbeth. Pa ddyfodol oedd gen i yn byw fel hyn? Nid dialedd oedd ar fy meddwl, ond chwarae teg. Gwrthodais ddiflannu o'r golwg, a gadael i ddifrifoldeb difaterwch Jwda effeithio ar fy hunan-werth i. Rhoddais fy meddwl ar waith a chynllunio popeth o flaen llaw. Rwy'n barod i gyfaddef erbyn hyn fy mod yn gyfrwys. Ro'n i'n gwybod yn reddfol sut oedd dal Jwda. Gwyddwn hefyd mai'r unig ffordd i wneud hynny oedd cuddio fy wyneb, mabwysiadu osgo putain, a chasglu prawf tra oeddwn yng nghwmni Jwda. Felly, eisteddais yn y llwch ar ochr y ffordd ac aros. 'Sdim angen imi fynd i fanylu ar beth ddigwyddodd; rwy'n siŵr y gallwch ddyfalu.

Llwyddodd fy nghynllun, bob cam ohono. Ro'n i'n gobeithio na fyddai pethau'n chwalu'n deilchion imi. Fe ges fy meirniadu'n llym pan ddaeth hi'n amlwg fy mod yn disgwyl babi. Cyhuddwyd fi ac roedd gorfod wynebu meddwl am y ddedfryd yn hunllefus: cael fy llosgi. Fedrwch chi gredu'r peth? Mae pobl yn aml yn ffafrio gweithredu cosb yn hytrach na cheisio cael dealltwriaeth. Ond mae gan y gwir ffordd o ddod i'r wyneb bron bob tro, ac fe wnes yn siŵr o hynny.

Pan welodd Jwda'r dystiolaeth a sylweddoli pwy oeddwn i, fe ddwedodd rywbeth annisgwyl: "Mae hi'n fwy cyfiawn na fi." Yr hyn a wnaeth mewn gwirionedd oedd cydnabod a chyfaddef ei gam, ond heb ddweud hynny'n gyhoeddus. Roedd yntau'n glyfar hefyd. Ond fe ddiolchais i Dduw oherwydd fe'm hachubwyd.

Gwn y bydd rhai ohonoch efallai'n fy nghlywed ac yn deall llawer mwy nag y mae pobl yn ei ddeall. Bydd eraill yn methu dygymod â chlywed oherwydd bod fy stori i wedi'i chadw yn rhywle'n ddwfn y tu mewn iddyn nhw hefyd.

Oherwydd, rydych chi'n gweld, mae rhai yn y byd hwn wastad yn cael bai ar gam. Mae rhai wedi gorfod cadw'n dawel. Gorfodwyd rhai i beidio â dweud a'u siarsio i feddwl am enw da'r teulu, ystyried beth fyddai'n digwydd petaent yn rhannu, cofio'r cywilydd.

Fe fydd rhai rydych yn eu hadnabod yn byw ag atgofion erchyll. Efallai y byddwch yn eistedd ar y bwrdd nesaf atynt neu yn yr un rhes â nhw wrth addoli. Bydd rhai'n cario briwiau ac yn ceisio'u cuddio. Mae crafu craith yn brifo, felly haws yw cadw'n dawel. Mae tawelwch yn aml yn saffach na sain geiriau.

Gadewch i fy stori eich atgoffa nad yw'r darlun bob amser yn berffaith. Gall fod yn amlhaenog, yn llawn lliwiau amrywiol: golau a thywyll. Ond mae Duw yn y darlun. Ac mae Duw yn eich darlun chi: yn ddestlus neu'n anniben, yno y mae ein Duw ni.

Cefais fy anghofio gan bobl, ond fy nghofio gan Dduw. Cofiwch, os gwelwch yn dda: Duw, cariad yw.

**Holi**

- Beth sy'n sefyll allan fwyaf i chi o ran ymddygiad Tamar? A yw ei gweithredoedd yn dangos rhuddin cymeriad yn eich barn chi?
- Sut mae'r stori hon yn herio ein dealltwriaeth o gyfiawnder? Oes lle i ni fod yn feirniadol weithiau, neu ydy hynny'n gysyniad rhy anodd ac anghyfforddus?
- Daeth Tamar yn rhan o linach Iesu. Ydy Duw ar waith yng nghanol gweithredoedd amherffaith a sefyllfaoedd blêr weithiau?
- Beth mae stori Tamar yn ei ddweud wrthym am y bobl ar y cyrion? Sut ddylai'r eglwys ymdrin â hyn heddiw?

**Gweddi**

**Dduw caredig,**
rwyt yn gweld y rhai y mae
cymdeithas heb eu gweld.
**Dduw cyfiawn,**
rwyt yn dymuno bod pawb yn
cael chwarae teg.
**Dduw graslon,**
rwyt yn adfer sefyllfaoedd.
**Dduw amyneddgar,**
rwyt yn parhau i dderbyn pawb.
Gwna ni yn bobl sy'n codi llais,
yn rhwydweithio gras ac yn
ymddiried ynot. Amen

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 12 Gorffennaf 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 12 Gorffennaf,**
**am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 12 Gorffennaf**
**am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Rhian Linecar, Caerdydd

# Gair gan *Cristion*




Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y cylchgrawn *Cristion*, dan gadeiryddiaeth y Parchg Ddr Elwyn Richards, gyda'r Parchg Jennie Hurd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, a Mr Rhys Jones fel trysorydd. Roedd tymor y tri ohonynt yn dirwyn i ben, a diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth ffyddlon.

Wedi trafodaeth, etholwyd y Parchg Eirian Wyn Lewis yn Gadeirydd am y tair blynedd nesaf, a Mrs Barbara Williams yn Ysgrifennydd. Yn anffodus, hyd yma, nid ydym wedi llwyddo i sicrhau trysorydd, ac apeliwn am gymorth. Tybed oes yna rywun o blith darllenwyr *Cenn@d* a fyddai'n barod i gynorthwyo?

Diolchwyd i Eurfyl Lewis a Sian Elin Thomas am eu gwaith fel golygyddion diwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cyflwynwyd copi proflen o rifyn mis Gorffennaf gan Aled, oedd wedi ei godi o wasg y Lolfa ar y ffordd i lawr i Aberystwyth, sef rhifyn yr Eisteddfod, â llun John 'Cwmbetws' Davies ar y clawr. Fe'n hatgoffwyd bod y golygyddion wedi cyflawni dwy flynedd o'u tymor golygyddol, a byddai angen rhywun i afael yn y tresi ymhen y flwyddyn.

Penderfynwyd mai gwahodd golygyddion i gyflawni tymor o flwyddyn yr un fyddai'r drefn o hyn ymlaen, a chytunwyd y byddai'r Parchg Beti-Wyn James yn gyfrifol am y flwyddyn gyntaf. Penderfynwyd y byddai Aled Davies yn gweithredu fel is-olygydd, gan gefnogi yn y cefndir, ac yn ddolen gyswllt wrth drosglwyddo'r olygyddiaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Nodwyd bod nifer y tanysgrifwyr yn dal i ddisgyn, a phwyswn ar bobl o'r newydd i danysgrifio, boed fel unigolion neu fel eglwysi. Mae modd tanysgrifio ar y wefan: [https://cristnogaeth.cymru/cristion/](https://cristnogaeth.cymru/cristion/)

Bydd y rhifyn cyfredol yn rhoi croeso eisteddfodol i ni, gan fod y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o ardal sir Benfro y tro hwn. Dyma gyflwyniad y golygyddion, Eurfyl a Sian:



'Croeso i ardal y Wes Wes. Mae'n fraint enfawr i ni fel golygyddion gael eich croesawu chi i'n hardal ni ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ym mis Awst, bydd ardal y Garreg Las yn croesawu Cymru gyfan a'r tu hwnt wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol ddychwelyd i Sir Benfro. Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal yn ardal Llantwd ddechrau Awst, mewn lleoliad sy'n llawn hanes, diwylliant a harddwch naturiol. Mae'r Eisteddfod eleni yn arbennig iawn gan ei bod yn nodi 850 mlynedd ers yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yn 1176 yng Nghastell Aberteifi, ddim ond ychydig filltiroedd o'r Maes.

Mae'r enw, Eisteddfod y Garreg Las, yn cyfeirio, wrth gwrs, at y garreg sy'n hollol unigryw i ardal y Preselau. Mae hefyd yn adlewyrchu cymeriad unigryw'r ardal. Mae'r enw'n cysylltu â threftadaeth hynafol Cymru ac yn symbol o gryfder, sefydlogrwydd a pharhad. Fel carreg sy'n sefyll yn gadarn drwy'r canrifoedd, mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru wedi parhau er gwaethaf pob her. Mae'r Eisteddfod yn gyfle i ddathlu'r etifeddiaeth honno a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae ardal Llantwd ei hun yn lle arbennig. Mae'r ardal, yng ngogledd Sir Benfro, yn cyfuno cefn gwlad gwyrddlas, arfordir godidog a chymunedau croesawgar. Mae'n gorwedd ar groesffordd rhwng Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, gan ddod â gwahanol draddodiadau a straeon ynghyd mewn un dathliad mawr o Gymreictod.

Mae i'r ardal arbennig yma wreiddiau Cristnogol dwfn hefyd, a byddwch yn clywed tipyn am hynny yn y rhifyn yma. O hanes un o gapeli anghydffurfiol hynaf Cymru, Rhydwilym, i'r gwaith arbennig sy'n digwydd yn Mount Zion, Aberteifi. Mae dau sy'n gyfarwydd iawn â'r Maes eleni wedi cyfrannu, sef Fflur James, sydd â'i chartref ddim ond tafliad carreg o'r Maes, a John 'Cwmbetws' Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, sydd wedi bod yn hynod brysur yn paratoi ers blynyddoedd erbyn hyn ac yn gweld y Maes o ffenest ei gegin. Hefyd, rydym wedi mynd dipyn ymhellach wrth i ni glywed am waith Catharine Nagashima allan yn Zushi, Siapan.

I gloi'r rhifyn, mae gan yr Archdderwydd Mererid Hopwood ddarn o farddoniaeth arbennig a luniodd i ddathlu darn o gelf gan Meirion Jones. Mae'r gwaith celf a'r farddoniaeth yn gampweithiau.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd miloedd o bobl yn ymweld â'r Maes. Bydd cystadlaethau, perfformiadau, arddangosfeydd, stondinau a digwyddiadau arbennig yn llenwi'r safle o fore tan nos. Ond, yn fwy na dim, bydd pabell Cytûn ar agor unwaith eto. Dewch draw i weld beth sydd gan ein hardal i'w gynnig. Edrychwn ymlaen am lansiad *Y Peder Ifengyl* gan Lyn Lewis Dafis ac oedfaon di-ri. Edrychwn ymlaen, wrth gwrs, am yr oedfa ar y bore Sul cyntaf yn y Pafiliwn am 9.30yb a'r Gymanfa Ganu yn y nos o dan arweiniad medrus Daniel Rees, sydd wedi cyfrannu erthygl i'r rhifyn yma.

Ond, wrth inni edrych ymlaen at Awst 2026, mae un neges yn sefyll uwchlaw popeth arall: croeso. Croeso i'r rhai sy'n adnabod yr Eisteddfod ers blynyddoedd ac i'r rhai sy'n dod am y tro cyntaf. Croeso i deuluoedd, ffrindiau, artistiaid, cystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cefndir. Yn ardal y Garreg Las, bydd y drysau ar agor, y baneri'n chwifio a'r croeso Cymreig ar ei orau. Dewch i ddathlu ein hiaith, ein diwylliant a'n cymuned gyda'n gilydd. Mae'r Garreg Las yn eich disgwyl.'

# Y bererindod flynyddol

Yn cloi ein tymor pob blwyddyn mae Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli yn mwynhau cael tramwyo ar bererindod fechan, ac ar ddechrau'r haf roedd penderfyniad wedi ei wneud y byddem yn pererindota yn ardal Eisteddfod y Garreg Las gan ein bod yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Sir Benfro ym mis Awst. Yr un pryd roedd y daith i gynnwys elfennau o daith ddirgel a dyna a gawsom yng nghwmni'r Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Siân Elin Thomas, diolch i'r rhai wnaeth drefnu a'n tywys ar y daith.

Ar ddydd Mawrth 9 Mehefin wedi cychwyn allan o glos Capel Heol Ddŵr yng Nghaerfyrddin a Chaffi Beca yn Efailwen, tramwyasom i Aberteifi. Ar ddechrau'r daith ar ein harhosiad cyntaf, yn briodol iawn, cawsom baned o goffi yng nghaffi 1176 yng nghyffiniau Castell Aberteifi, gan gael ein hatgoffa am y lleoliad lle cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf, yn ôl yr hanes, dan nawdd yr Arglwydd Rhys yn 1176. Ymwelsom wedyn ag eglwys y Santes Fair, yn y dref, gan gael ein croesawu'n gynnes iawn gan y Tad Pius. Eglurodd fel y mae'r eglwys yn gysegrfan genedlaethol yng Nghymru ac yn parhau i ddenu pererinion sy'n ymweld â'r eglwys i addoli a myfyrio gerbron y cerflun enwog o'r Forwyn Fair gyda'r plentyn Iesu yn ei chôl.

### Llantwd

Yna aethom yn ein blaenau i Sir Benfro i weld lleoliad a safle maes y brifwyl eleni yn Llantwd ar dir fferm Brynawelon yn berchen i Eirwyn Harries lle gwnaethom yn ei gwmni gyfarfod â John Davies, Cwmbetws, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr eisteddfod eleni. Eglurodd John i ni pa mor hwylus fyddai'r holl drefniadau, fel roedd trigolion tair o'r siroedd sy'n cynnal yr wŷl eleni wedi hen fynd dros y targed ariannol o godi'r arian ar gyfer yr eisteddfod, yr holl gydweithio hapus a gafwyd a'r cyffro a'r brwdfrydedd sydd i'w deimlo bellach wrth edrych ymlaen at ei dyfodiad ddechrau Awst. Fe'n hatgoffodd hefyd am yr un peth sydd yn allweddol i lwyddiant yr eisteddfod ac a ddylai fod yn bwnc i'n gweddïau fel gweinidogion, meddai John, sef cael tywydd braf yn ystod yr wythnos!

### Eglwys Meline

Cawsom fwynhau ein pecynnau bwyd amser cinio yn festri capel Ebeneser Dyfed, lle mae Siân Elin yn weinidog a John ac Eirwyn yn ddiaconiaid a diolch i Beti Thomas oedd yno i weini paned o de i ni. Taith fer wedyn yng nghyffiniau Eglwyswrw a Nanhyfer. Ymwelsom â hen eglwys Meline, sydd ar y dde wrth fynd i gyfeiriad Felindre Farchog. Yno cawsom gwmni'r hanesydd lleol Hedd Ladd Lewis a nododd ei bod yn drist iawn bod yr eglwys wedi ei datgorffori gan yr Eglwys yng Nghymru, ond eto ei bod yn cael ei gwarchod a'i diogelu. Mae'r eglwys yn nodedig am ei phensaernïaeth syml ond coeth, sydd yn ddigon tebyg i flychau sgwâr, afrosgo trwm, a phlaen yr olwg, y capeli anghydffurfiol, ac efallai mai dyma sy'n gyfrifol bod yr hen eglwys yn parhau i ddenu eneidiau sydd am fwynhau'r llonyddwch sydd i'w deimlo yno, ynghyd â thawelwch i weddïo.

### Sant Brynach

Aethom yn ein blaen i ymweld ag eglwys hynafol Sant Brynach yn Nanhyfer sy'n dyddio yn ôl i'r chweched ganrif ac wedi ei chysegru i Frynach Sant. Mae'r eglwys yn enwog am ei choed ywen a'r ywen waedlyd, ei chroes Geltaidd hynafol a Chroes y Pererinion, y meini ag ysgrifen Ogam arnynt a charreg fedd i John Jones (Tegid), Henllys. Yn y fynwent mae cenedlaethau o deulu'r Boweniaid wedi eu claddu, hen deulu bonedd a llinach bwysig yn yr ardal. Wedi mwynhau orig yn Nanhyfer aethom yn ein blaenau i blasty Llwyngwair, cartref teulu'r Boweniaid gan gael ein hatgoffa fel roedd y teulu yn gyfeillgar i'r Methodistiaid cynnar, gan letya John Wesley a Williams Pantycelyn, ymhlith eraill, ac mai ym mhlasty Llwyngwair y cyfansoddodd Pantycelyn ei emyn enwog 'Dros y bryniau tywyll niwlog'. Cawsom y stori a'r cefndir i'r emyn gan Eirian Wyn wedi ei godi o'r gyfrol *Meini Nadd a Mynyddoedd* gan y diweddar brifardd Eirwyn George, cyfrol sy'n frith o hen hanes ardal y Garreg Las, ac yn ddarllen hanfodol i'r sawl sydd am gyfarwyddo â hanes y Preselau ac ardal y Garreg Las.

### Gwledda

Ar ddiwedd y prynhawn gwnaethom ddychwelyd i Felindre Farchog gan fwynhau pryd hwyrol blasus yn nhafarn y Salutation yn y pentref. Cyn y swper cynaliasom ein cyfarfod busnes gan bennu mai maes ein hastudio am y tymor nesaf fydd y dywediadau 'Myfi yw ...' o eiddo Iesu. Cawsom dymor bendithiol yn edrych ar y saith llythyr i eglwysi Asia yn Llyfr Datguddiad Ioan ac edrychwn ymlaen yn ffyddiog i dymor newydd a chwmnïaeth braf wedi'r haf.

**Emyr Gwyn Evans**




## Panel Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr

**ARWYN OWEN HUGHES**
Llithfaen

**SIAN MEINIR**
Penarth

Hyfrydwch yw nodi fod y ddau fyfyriwr uchod wedi cwblhau cwrs academaidd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, ac yn agored i dderbyn galwad oddi wrth yr eglwysi.
I dderbyn eu manylion cyswllt, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, sef y Parchg Carwyn Siddall: 07732974819 carwyn@annibynwyr.cymru

Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

## Barn Annibynnol

# Y Gymru rwyf am fyw ynddi

Fel Cristion sy'n byw mewn dinas amlddiwylliannol, rwy'n ffodus i weld bob dydd, gyfoeth cymuned sy'n cynnwys pobl o wahanol genhedloedd, diwylliannau, ieithoedd a chrefyddau. Yn fy nghymdogaeth, mae teuluoedd sydd wedi byw yng Nghymru ers cenedlaethau yn rhannu'r un strydoedd â phobl sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar o Wcráin, Syria, Affganistan a sawl rhan arall o'r byd. Nid gwahaniaethau i'n rhannu yw'r rhain, ond gwahaniaethau sy'n ein cyfoethogi. Er gwaethaf ein profiadau gwahanol, rydym yn rhannu'r un dyheadau sylfaenol: byw mewn diogelwch, magu teuluoedd, cyfrannu at ein cymunedau a chreu dyfodol gwell i'r genhedlaeth nesaf.




### Dinas noddfa

Dyna pam y mae'r drafodaeth ddiweddar ynghylch dyfodol Cymru fel 'Cenedl Noddfa' wedi peri gofid i mi. Nid wyf yn gweld y syniad hwnnw fel polisi gwleidyddol yn unig, ond fel adlewyrchiad o'r gwerthoedd dynol a moesol sydd wedi siapio Cymru ar ei gorau. Mae'n ymwneud â'r math o wlad yr ydym am fod, a'r math o bobl yr ydym am fod.

A dweud y gwir, mae'n fy nhristáu fod rhaid i mi ysgrifennu am hyn o gwbl. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi clywed mwy a mwy o leisiau, gan gynnwys rhai o fewn cylchoedd Cristnogol, yn ailadrodd naratifau sy'n canolbwyntio ar ofn, diffyg ac amheuaeth. Un o'r ymadroddion mwyaf cyffredin yw'r alwad i 'ofalu am ein pobl ni yn gyntaf'. Ar yr olwg gyntaf, mae hynny'n swnio'n rhesymol. Mewn cyfnod lle mae teuluoedd yn wynebu costau byw uchel, gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau ac ansicrwydd economaidd, mae'n hawdd gweld pam fod y neges hon yn apelio at bobl. Ond fel Cristion, rwy'n credu bod y ffordd hon o feddwl yn cyflwyno dewis ffug. Nid oes rhaid dewis rhwng gofalu am ein cymunedau lleol a dangos tosturi tuag at y rhai sy'n chwilio am noddfa. Nid yw caredigrwydd yn adnodd cyfyngedig. Nid yw croesawu'r dieithryn yn golygu cefnu ar ein cymdogion. Mewn gwirionedd, mae cymdeithas dosturiol yn ceisio gwneud y ddau.



### Cyfwerth â'n gilydd

Yn yr efengylau, gwelwn Iesu yn estyn allan yn gyson at y rhai oedd ar gyrion cymdeithas. Nid oedd yn mesur gwerth pobl yn ôl eu tarddiad, eu statws na'u hiaith. Roedd yn gweld pob unigolyn fel rhywun a grëwyd ar ddelw Duw. Rhaid i'r egwyddor honno barhau i fod yn sail i'n ffydd heddiw. Pan fydd pobl yn cyrraedd Cymru ar ôl ffoi rhag rhyfel, erledigaeth neu dlodi eithafol, credaf mai tosturi ddylai fod ein hymateb cyntaf. Mae byw mewn dinas fel Casnewydd wedi dangos i mi nad yw amrywiaeth yn fygythiad. Rwyf wedi gweld plant o gefndiroedd gwahanol yn dysgu gyda'i gilydd, cymdogion yn cefnogi ei gilydd mewn cyfnodau anodd, a chymunedau'n dod ynghyd i ddathlu a rhannu. Mae'r profiadau hyn wedi cryfhau fy argyhoeddiad bod mwy yn ein huno nag sy'n ein gwahanu.

### Creu pontydd

Wrth gwrs, nid yw adeiladu cymunedau cynhwysol yn digwydd ar ddamwain. Mae angen buddsoddi, arweinyddiaeth a pharodrwydd i wrando ar ein gilydd. Dyma lle mae gan eglwysi rôl arbennig. Dylai eglwysi fod yn fannau sy'n adeiladu pontydd yn hytrach na waliau. Gallant gynnig croeso ymarferol i deuluoedd newydd, trefnu cyfleoedd i bobl gyfarfod a dod i adnabod ei gilydd, a chreu gofodau lle mae straeon pobl yn cael eu clywed yn hytrach na'u labelu. Yn bwysicaf oll, gall eglwysi atgoffa cymdeithas bod pob person yn meddu ar urddas a gwerth cynhenid.

Mae gan Gymru hanes hir o groesawu pobl newydd. Mae llawer o'r rhai a gyrhaeddodd ein glannau dros y degawdau wedi cyfrannu'n helaeth at ein heconomi, ein diwylliant a'n bywyd cymunedol. Mae eu straeon bellach yn rhan annatod o stori Cymru. Pan fyddaf yn meddwl am y Gymru yr hoffwn fyw ynddi, nid wyf yn dychmygu gwlad sy'n cau ei drysau nac yn troi ei chefn ar bobl mewn angen. Rwy'n dychmygu Cymru sy'n hyderus yn ei hunaniaeth, yn hael ei chalon ac yn ddigon dewr i fyw ei gwerthoedd yn agored. Dangos drwy esiampl. Fel Cristion, credaf fod cryfder cenedl yn cael ei fesur nid gan bwy y mae'n eu cau allan, ond gan y tosturi y mae'n ei ddangos i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Dyna'r Gymru rwyf am fyw ynddi – Cymru sy'n parhau i fod yn fan croeso, gobaith a noddfa.

**Elin Maher**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

## Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan

### Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Mae Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Oxford Circus, yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig sy'n arddel ffydd Gristnogol i ymuno â ni fel Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan.

Bydd y rôl yn cynnig cyfle cyffrous i gryfhau a meithrin perthynas â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Llundain, gan eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â bywyd yr eglwys a'r gymuned Gristnogol ehangach.

Swydd fydd hon am gyfnod cychwynnol o 12 mis, gydag adolygiad perfformiad ar ôl 6 mis. Bydd y termau cyflogi i'w drafod yn ôl cymwysterau a phrofiad.

**Dyddiad dechrau: Medi 2026**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Gorffennaf 2026**

Am fwy o fanylion, swydd-ddisgrifiad llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r gweinidog,

y Parchg Robert Nicholls: rob.nicholls75@gmail.com

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Wythnos Cymorth Cristnogol

Daeth cynulleidfa dda at ei gilydd i eglwys Sant Tegfan ar fore Sul, 10 Mai, i wasanaeth oedd wedi ei drefnu gan Cytûn Porthaethwy a Llandegfan i nodi dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol 2026. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Wendy Williams o gapel Barachia, Cadeirydd lleol Cytûn, a chymerwyd rhan gan aelodau'r amrywiol eglwysi o fewn y dalgylch.

Yn cynrychioli'r Capel Mawr a'r Tabernacl yr oedd Gwen Owen a Margaret Lloyd, y naill yn darllen o Ioan 14:15–21, a'r llall yn rhoi i ni beth o hanes Fridah, gwraig yn Kenya,.



*Gwen Owen a Margaret Lloyd*

Y Parchg Richard Wood oedd yn pregethu, a chafwyd neges rymus a pherthnasol ganddo yn ein hatgoffa ein bod i gyd yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ein gilydd, am yr anghenus ac i gyflawni gwaith y Deyrnas, yn ei amrywiol agweddau, yn ein bywydau bob dydd. 'Chi,' meddai, 'yw'r rhai y mae Duw wedi eu harfogi ar gyfer gwneud y gwaith! Mae wedi rhoi'r Ysbryd Glân i chi! Am beth yr ydych chi'n disgwyl? Bwriwch iddi yn enw Iesu Grist!'

Yr oedd aelodau eglwys Sant Tegfan wedi paratoi paned o de neu goffi ar ddiwedd y gwasanaeth, a rhoddodd hynny gyfle i bawb a oedd yn bresennol i gymdeithasu â'i gilydd.



*Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol*

## Bore coffi

Ar fore dydd Iau, 14 Mai, cynhaliwyd bore coffi er budd Cymorth Cristnogol yn neuadd y plwyf, Llandegfan. Daeth nifer dda yno o'r amrywiol eglwysi, i gefnogi, cymdeithasu a gwrando ar Llinos Roberts, aelod o staff Cymorth Cristnogol, yn dweud gair am waith y mudiad, y tro hwn yn Nairobi, Kenya. Cyfanswm terfynol y derbyniadau a'r cyfraniadau oedd £689.50

# SUL SBESIAL

Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

**Ysgol Griffith Jones, Sancler**
**12 Gorffennaf, 2.00**

**GOLEUNI MEWN TYWYLLWCH**

Profiadau Rhian Evans



(Rhian yn darllen y Beibl Cymraeg mewn Braille yn lansiad 2010)

Gyda gweithgarwch i'r plant, a band cyfoes yn cyfeilio'r emynau.

Paned a bisgedi ar y diwedd.

CROES CYNNES IAWN I BAWB

# Sul Sbesial Cyd-enwadol

Dewch i gyd-addoli mewn
Oedfa Gyfoes yn
Hope-Siloh, Pontarddulais, SA4 8SY

Gorffennaf 12fed 2026
Am 10:30yb
Oedfa dan arweiniad
Siân Wyn Rees (Cymdeithas y Beibl)

Gyda Ysgolion Sul Sir Gaerfyrddin
Band y Diarhebion yn arwain y Gân

Dished a chyfle i gymdeithasu wedi'r oedfa.

**Croeso cynnes i bawb**






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*